y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD RHIF 185 GORFFENNAF/AWST 1992 65c

# Penderfynu o'r diwedd o blaid addysg Gymraeg

**Wedi brwydro hir, a chodi a cholli gobeithion, penderfynodd Awdurdod Addysg De Morgannwg sefydlu ysgol gynradd ac ysgol uwchradd Gymraeg newydd yn y sir.**

Er gwaetha'r peryg a gyhoeddwyd yn gynt eleni na fyddai'r sector uwchradd Gymraeg yn cael ei ehangu tan 1988, cadarnhawyd y sefydlir y ddwy ysgol newydd o fewn y bedair mlynedd nesaf i ddiwallu'r galw cynyddol am addysg Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro.

Dywedodd y Cynghorydd Caerwyn Roderick ei fod yn gobeithio y bydd hyn yn lliniaru'r problemau i rieni yn y Rhâth sy'n gorfod anfon eu plant gryn bellter i ysgolion sydd eisoes yn orlawn.

Bydd yr ysgol gynradd newydd yn cael ei lleoli yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd, er nad oes penderfyniad eto ynglyn â lleoliad yr ysgol uwchradd. Yn ôl Elfan Jones, prifathro ysgol Bro Eirwg, ac un o'r ymgyrchwyr mwyaf brwd dros ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn nwyrain Caerdydd, dylid sefydlu'r ysgol uwchradd ar safle'r hen ysgol Hawardian yn y Rhâth er mwyn meithrin traddodiad addysg Gymraeg mewn ardaloedd fel y Sblot a Thredelerch.

Er hynny mae angen mawr gwella'r ddarpariaeth addysg uwchradd Gymraeg ym Mro Morgannwg, lle nad yw cyfran uchel o disgyblion cynradd Cymraeg yr ardal yn mynd ymlaen i ysgol Glantâf oherwydd y pellter mawr sydd rhyngddynt â Chaerdydd. Mae poblogaeth ysgol Glantâf eisoes dros 1000, a disgwylir ychwanegu bron i 1000 arall o ddisgyblion sydd angen addysg uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd dros y chwe mlynedd nesaf o ganiyniad i'r ehangu syfrdanol yn y sector gynradd.

Cyhoeddodd y Dinesydd ym mis Chwefror bod sawl lleoliad yn nwyrain Caerdydd dan ystyriaeth ar gyfer sefydlu'r ysgol gynradd, ac y byddai'r Awdurdod Addysg yn barod i ystyried adeilad newydd sbon os nad yw'r safleoedd presennol yn addas.

Er ei fod yn croesawu'r newyddion, mae Elfan Jones yn amheus o'r amserlen. Dywedodd wrth y Dinesydd problem lle yn mynd i effeithio eleni eto ar nifer y disgyblion y gall ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd eu derbyn ym mis Medi.

Awgrymwyd wrth y Dinesydd yn gynharach eleni bod Elfan Jones wedi chwyddo ffigurau nifer y disgyblion newydd ellid eu disgwyl yn flynyddol mewn adroddiad i'r Awdurdod Addysg. Dywedodd wrth y Dinesydd bod y penderfyniad hwn nawr yn profi nad oedd ei ffigurau'n anghywir a bod y galw am addysg Gymraeg yn mynd i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ôl Alun Davies, Cyfarwyddwr Addysg cynorthwyol De Morgannwg, mae'r cynlluniau arfaethedig yn dibynnu ar gyllid digonol ar gyfer 1998/97, a rhybuddiodd y gallent newid gryn dipyn cyn hynny.

**• AR 2 GORFFENNAF** cyflwynwyd gwerth £500 o lyfrau i ddisgyblion Ysgol Bro Eirwg. Daeth y wobr i'r ysgol yn sgîl eu llwyddiant yng nghystadleuaeth a drefnwyd gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg i chwyddo aelodaeth Clwb Sbondonics.

Cyflwynwyd y llyfrau gan Lyfrgellydd De Morgannwg, Ieuan Edwards. Yno hefyd oedd Philip Davies, Pennaeth Marchnata'r Cyngor Llyfrau.



• Plant Bro Eirwg ynghyd â'u llyfrau a Philip Davies ac Elfan Jones (cefn o'r chwith) a Ieuan Edwards (blaen)

celtic
HENDERSON CROSTHWAITE
BROCERIAID STOC A RHEOLWYR
BUDDSODDI ANNIBYNNOL
Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru

**"Yng ngheg y sach y mae cynilo"**

**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**
**Dafydd Hampson-Jones**
**neu Howard Bailey**

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn rhan o grŵp Guinness Mahon Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain.

PATAGONIA

*Hydref 19fed hyd Tachwedd 6ed 1992*
Yn ymweld â

- *Buenos Aires*
- *Rhaeadrau Iguazu*
- *Trelew*
- *Esquel*

**PRIS Y DAITH £1,592**
*Yn cynnwys Tocyn Hedfan, Llety, ac yn y blaen.*

*Arweinyddion y daith - Dei a Mair Edwards*
*Am fanylion pellach cysylltwch â*
Dei a Mair Edwards Ffôn 06784-276
neu
Aled Richards
Cwmni Teithio Capital
11 Heol Penllyn, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn 0222 628661

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 1992**

West Glamorgan THEATR Gorllewin Morgannwg

**"... y gorau o'r Theatr yng Nghymru heddiw."**
Y FANER. Hydref 1991

**YN CYFLWYNO DAU GYNHYRCHIAD ARBENNIG**

**Nos Lun, Mercher a Gwener*** **3, 5 a 7 Awst**
**SARA HARRIS-DAVIES**
yn
**SHIRLEY VALENTINE**
gan
**WILLY RUSSELL**
Cyfieithiad MANON EAMES
*"... un o brif ddramâu'r wythdegau"*
**ANADDAS I BLANT DAN 12 OED.**
**POBL IEUANC DAN 15 OED - GYDA'I RHIENI'N UNIG.**

**Nos Fawrth, Iau a Gwener*** **4, 6 a 7 Awst**
**MANON EAMES • IOAN HEFIN**
mewn comedi dywyll newydd
**DAWNS Y DODO**
*Am drefn perfformio nos Wener, 7 Awst gweler posteri/taflenni ar y Maes.

**NEUADD GOFFA**
**TALYBONT**

**Cyfarwyddwr: TIM BAKER**
**Cynllunydd: CARYS TUDOR**

**£4.00 y perfformiad**
**(Gostyngiad £2.00)**
**8.00 o'r gloch bob nos**

PRIS ARBENNIG
**Tocyn i'r ddau gynhyrchiad* £7.00 (Gostyngiad £3.00)**
***RHAID prynu ar gyfer y ddau gynhyrchiad YR UN PRYD**

TOCYNNAU:
Pabell y Theatrau ar Faes yr Eisteddfod **neu cyn 28 Gorffennaf archebwch a chasglu wrth y drws***
o Theatr Gorllewin Morgannwg, Uned 3, Ystad Ddiwydiannol Heol Millands, Castell Nedd, SA11 1NJ.
***RHAID** danfon y tâl cywir gyda'r archeb. (Gwneler sieciau'n daladwy i Theatr Gorllewin Morgannwg)

# LLENWCH EICH FFURFLEN NAWR!

**Cysylltwch â ni â'ch newyddion: 0222 578772**

## Cadi Llwyd yn sbecian

Dydw i ddim yn hoffi cwyno mewn tŷ bwyta ynglŷn â'r bwyd rhag ofn i rywbeth annymunol gael ei ychwanegu i'r cwrs nesa. Yn ôl pob tebyg, collodd Peter Harris, perchen bwyty ym *Mhort Talbot*, ei limpyn â chwsmer anfodlon. Gafaelodd mewn mat cwrw mawr, ei fwydo mewn gwin, ei dipio mewn braster, ac yna ei weini i'r cwsmer fel cig llo. Dal i gwyno wnaeth y cwsmer, gan ddweud bod y cig yn eitha ond bod y llysiau'n ddiawledig.

Mae Clive Harpwood, y cyfarwyddwr teledu o fri, yn rhy ddrud i S4C. Mae e wedi cymryd gwaith gan gwmni Elidir i gyfarwyddo'r rhaglen Slot Sadwrn dros yr haf, ond dyw cyllideb y rhaglen ddim yn ddigon i'w dalu am y gyfres gyfan, ac mi fydd e'n gadael gyda rhyw fis ohoni i fynd. Yn cymryd ei le fydd Huw Eurig o fydd, yn ôl y sôn, yn cyfarwyddo am ddim – am ei fod e'n un o berchnogion Elidir.

Roedd 'na helynt hefyd gyda brawd Huw Eurig, Aled, sydd newydd ei benodi i olynu Gwilym Owen fel Pennaeth Newyddion BBC Cymru. Roedd Llundain a Chaerdydd yn methu â chytuno ar y penodiad, nes bod yn rhaid i'r Bos o Lundain fynnu bod Bos Cymru yn dilyn y drefn...a pheidio â phenodi Glyn Mathias o ITN i'r swydd.

Gan aros gyda'r teli, dyna beth od fod Codiw Cwestiwn yn fyw o Baris wedi mynd allan yn iawn ar S4C, a Codi Cwestiwn o'r Reardon Smith yng Nghaerdydd wedi methu â mynd allan o gwbwl. Mwy o grebachu ar gyllidebau Elidir, neu ddim yn talu bils trydan?

Bydd hen welingtons yn cael eu hailgylchu fel rhai newydd, diolch i weli-bancs sydd wedi eu trefnu gan Gyngor Dosbarth y Preseli.

Mi fedrwch chi bellach brynu darn o'r etifeddiaeth wyllt honno sy'n llifo drwy'n dinas. Mae boi o Gaerdydd wedi cael 450 llathen o afon Taf fel rhan o'r fargen aan brynodd e hen bonto'r eiddo Rheilffyrdd Prydain yn ddiweddar. Ac mae e'n cynnig gwerthu plotiau bach o'r afon i'r rhai sy'n mynnu fod Cymru ar Werth.

CYMDEITHASAU ADEILADU

# DIM XTRA HELP GAN YR HALIFAX

**WRTH LANSIO** dogfen newydd yn ddiweddar, cyhoeddodd Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei bod yn fwriad ganddynt ymgyrchu yn erbyn y Cymdeithasau Adeiladu yng Nghaerdydd i'w cael i roi statws cyfartal i'r Gymraeg yn eu holl weithgareddau.

Mae'r ddogfen ddwyieithog *Tŷ ar y Tywod* yn amlinellu'r gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael gan swyddfeydd Cymdeithasau Adeiladu yng Nghaerdydd ac fe'i anfonir at bob un o'r Cymdeithasau Adeiladu yn y gobaith o wella'r sefyllfa sydd ohoni.

Mynegwyd fod y sefyllfa'n gwbwl annigonol trwy Gymru gyfan ar hyn o bryd, gyda rhai Cymdeithasau'n cynnig ambell arwydd pitw mewn mannau y tu allan i Gaerdydd. Ni welai'r Gymdeithas y byddai unrhyw welliant yn y sefyllfa onid ymgyrchir, gan nad yw'r Ddeddf Iaith arfaethedig yn bwriadu ystyried diwydiannau a masnachu preifat o gwbwl.

Dywedwyd bod y Cymdeithasau yma mewn sefyllfa freintiedig mewn sawl ffordd. Er enghraifft, mae nifer o'u cwsmeriaid yn mynd atyn nhw i ofyn am forgais, a pheth hawdd fyddai i Gymdeithas Adeiladu wrthod cais pe bai'n teimlo fod cwsmer posibl yn debyg o fod yn niwsans ar dir iaith.

Pwysleisiwyd na fyddai cyflwyno elfen helaeth o Gymraeg i'w masnachu'n debyg o gostio llawer i'r Cymdeithasau Adeiladu, gan mai tua £30 y fil o eiriau yw costau cyfieithu i'r Gymraeg, ac ni ddylai fod gymaint â hynny'n fwy costus cyfieithu taflenni a dogfennau ag yw hi i gynhyrchu rhai uniaith Saesneg. Pwysleisiwyd fod asedau'r Cymdeithasau Adeiladu yn filiynau o bunnau, ac y byddai'n dda eu gweld yn arwain y ffordd yn y ddinas.

Dywedwyd "Yr hyn a anghofir yn aml yw fod mwy o Gymry Cymraeg ym Morgannwg a Chaerdydd nag mewn mannau gwledig, ac y gallai fod mwy o alw am wasanaeth Cymraeg ar gyfartaledd yng Nghaerdydd nag yng Nghaernarfon".

Y gobaith yw y gellir darbwyllo'r Cymdeithasau Adeiladu i ofalu fod un person cownter sy'n gallu rhoi gwasanaeth Cymraeg gan bob swyddfa, ac y gallai'r person hwnnw fynd trwy'r holl ddogfennau morgais a chontract prynu tŷ trwy gyfrwng y Gymraeg.

Datgelodd Cymdeithas yr Iaith wrth y Dinesydd bod yr ymateb a gafwyd gan rai o'r Cymdeithasau Adeiladu yn llugoer iawn. Mewn llythyr at Miranda Morton, cadeirydd Cell Caerdydd, cysylltodd MG Whitehouse, Cyfarwyddwr Gweithgareddau Cymdeithas Adeiladu'r Halifax y Gymraeg yng Nghymru ag anghenion Bengaleg, Gujerateg, Hindi a ieithoedd ethnig eraill, gan ddweud ei bod hi'n "afrealistig" disgwyl iddynt newid y ddarpariaeth sydd ganddynt yn y Gymraeg.

EHANGU GWASANAETHAU

# GWELL HWYL GAN ARIANNWYR



• Dafydd Hampson-Jones

**CYHOEDDODD** dau o gwmnïau ariannol Caerdydd, Grant Thornton a Celtic Henderson Crosthwaite, eu cefnogaeth i'r Gymraeg drwy ddatblygu eu darpariaethau drwy gyfrwng yr iaith.

Dywedodd Geraint Davies a Dewi Griffiths o Grant Thornton "Ein bod wedi sylweddoli ymhell cyn ffurfio Bwrdd yr Iaith bethoedd buddiannau gwirioneddol cynghori busnesau ac unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg".

Mae staff y cwmni'n cael eu hannog i ddysgu'r iaith os nad ydyn nhw eisoes yn ei siarad er mwyn galluogi Grant Thornton i gynnig "gwasanaeth personol i'n cwsmeriaid ar bob achlysur, ac mae'n rheidrwydd arnom i allu cyfathrebu yn y cyfrwng a ddewisir ganddyn nhw".

Mae Celtic Henderson Crosthwaite newydd gyhoeddi llyfryn Cymraeg sy'n rhoi manylion am eu gwasanaethau ariannol, ac ar fin eu cyhoeddi mae dau lyfryn ychwanegol fydd yn rhoi canllawiau i faterion ariannol mwy manwl.

Yn ôl Dafydd Hampson-Jones, mae gan CHC nifer o gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ledled Cymru, a bod y cwmni'n ceisio ymateb i'w hanghenion ariannol drwy gyfrwng yr iaith.

**Copi mis Medi i gyrraedd erbyn 24 Awst 1992**

y Dinesydd
Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf
Caerdydd CF4 2JL
0222 578772 fax 0222 567639
hysbysebu 0222 567639
Golygydd Shân Emlyn
Cynhyrchu Surrexit
© 1992

MENNA'N MANYLU

# YN CENHADU ETO

MENNA MEDI

**NÔL YN ISRAEL,** roeddem wedi heirio car, a Menai, fy chwaer, yn unig oedd â thrwydded. Ar ôl arfer efo'r gêrs a'r gyrru ar yr ochr arall, i ffwrdd â ni i Fethlehem sydd 6 milltir o Jerwsalem.

Gan fod y car wedi ei logi yn rhan Orllewinol y ddinas, roedd rhif melyn iddo, ond glas ydi rhife ceir y Dwyrain. Felly rhaid oedd sicrhau bod y ffenestri'n gallu gwrthsefyll bwledi, a rhaid oedd cario *kaffeay*, sef penwisg yr Arab, i ddangos bod ein tueddiade gwleidyddol yn newtral!

Roedd yn sioc i'r sustem ar y dechre, ond buan y daethom i arfer.

Pentre bach, efo llai o ymwelwyr, ydi Bethlehem, a'r grisie hynafol a'r hen siope'n debycach i ddarlun rhywun o gyfnod Crist. Roedd seren arian yma'n sumbol o'r un arweiniodd y doethion i fan y geni, ond unwaith eto roedd safle'r preseb gwreiddiol o dan addurniade ffug.

Y tu ôl i'r eglwys yma saif eglwys arall, sef y *Grotto du Lait* i gofio am Fair yn colli diferyn o laeth ar y safle, a'r lle i gyd yn troi'n wyn. Anodd coelio hynny!

Ar ôl reid boenus ar gefn (neu lwmp) camel hyll ysgyrnog, dyma fynd nôl i Jerwsalem, ond y tro hwn i'r Gorllewin – treflan yr Iddewon modern, â'r strydoedd Eingl-Americanaidd. Mae'r gwrthgyferbyniad yma â'r ardal Arabaidd yn anhygoel.

Rhaid oedd ymweld ag arddangosfa *Shrine of the Book*, lle cynhwysir rhai o sgroliau'r Môr Marw a ddarganfuwyd mewn ogof yn Qumran ym 1947. Yn ogystal â hen gostrelau pridd o gyfnod cynnar, roedd arddangosfa ddifyr yma o weithiau darlunwyr fel Chaggall, Gaugin a Van Gogh.

Ar y ffin rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin mae ardal y Mia Sharim, lle trig yr Iddewon Cydymffurfiol. Synem a rhyfeddem at wisgoedd a hatie duon ac undoneg y dynion, efo cudynnau o wallt cyrliog, hyll; a'r merched yn gwisgo wig wedi iddynt eillio'u gwalltie ar ôl priodi!

***Mwy ym mis Medi...***

MERCHED Y WAWR

# HER I GAERDYDD GAN FERCHED Y WAWR

**MEWN CYFARFOD** â chyn Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd Jeff Sainsbury, yn Neuadd y Ddinas yn ddiweddar, cyflwynodd Merched y Wawr rhanbarth De a Chanol Morgannwg a Gwent blac i ddathlu jiwbili arian y mudiad.

Mewn anerchiad byr, cyhoeddodd Margaret Lloyd Hughes o Ferched y Wawr eu bod yn disgwyl i'r ddinas roi arweiniad arbennig i hybu iaith a diwylliant Cymru, a'i gobaith y byddai'r plac "yn eich hatgoffa chi a'ch olynwyr o'r cyfrifoldeb a'r fraint rydych yn eu rhannu â ni".


• gyda'r Arglwydd Faer a'r Faeres, o'r chwith Glenys Jones, Mair Eluned Thomas, Margaret Evans, Margaret Lloyd Hughes, Gwenllïan Jones a Mary Isaac



COED Y GOF

# FFRWYDRON A PHARTI

**YCHYDIG** ddyddiau'n unig cyn dathlu eu penblwydd yn 10 oed, ymosododd fandaliaid â bomiau




petrol ar ysgol Coed y Gof ym Mhentrebaen. Yn ôl y prifathro, Arwel Peleg Williams, cyfyngwyd y difrod i'r llawr yn unig.

Ar 3 Gorffennaf cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod cyfan o ddathliadau penblwydd pan ddadorchuddiwyd plac i gofnodi'r achlysur.

Cafodd yr ysgol lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn ychwanegol i'r hyn a gofnodwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd. Daeth eu parti unsain yn ail, a'r côr (yn y llun isod) yn drydydd.



POBOL

# PWDIN O BLWM FIS GORFFENNAF

**BU'N GYFNOD** prysur i Mici Plwm dros yr wythnosau diwethaf. Bu'n teithio o gwmpas ysgolion Cymraeg De Morgannwg fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant cylchgronau'r Urdd.

Fe'i cadwyd yn brysur hefyd yn gwireddu breuddwydion yn ei gyfres deledu Fe Hoffwn I, gan gynnwys breuddwyd Elen Evans, 8 oed, o Gaerdydd a gafodd gyfiwyno'r rhaglen Palu Mlaen gyda Menna Roberts a Medwyn Williams o'r Wyl Gerddi yng Nghlyn Ebwy.



• Plwmsen ym Mhencras i'r Urdd



• Elen Evans yn rhannu ei breuddwyd

# LLENWCH EICH FFURFLEN NAWR!

## COLOFN SHÂN

# DR BEN THOMAS

SHÂN EMLYN

**MAE SGWENNU'R** golofn hon yn anodd iawn y mis yma. Roeddwn wedi cwblhau'r golofn, yn rhyw rwdlan fel y bydda i, ac yna fel yr â'r rhifyn hwn i'w wely brawychwyd fi a'm ffrindiau gan farwolaeth cynamserol, ar ôl gwaeledd byr Dr Ben Thomas.

Brwydrodd y meddygon a'r nyrsus yn galed i'w arbed, ond colli'r dydd fu ei hanes.

Rydym yn teimlo i'r byw dros Joan ei briod, Susan a Huw a'u teuluoedd, ac Angharad fach sydd wedi colli tadcu mor hoffus.

Roedd Ben yn ŵr bonheddig, tawel, a ddewisai ei eiriau'n ofalus a diwastraff. Yn feistr yn ei faes, galw amdano, a pharch mawr iddo ym mhob cornel o'r byd.



• Shân Emlyn

Ni chaech achlust o hynny gan Ben ei hun, rhyw araf sylweddoli hynny dros y blynyddoedd a wnaethon ni ei ffrindiau. Mewn ambell seiat fin nos a'r trafod yn frwd, gallai Ben ein llorio â'i wybodaeth yn ei ffordd wylaidd tawel.

Bu Joan yn ofalus iawn ohono ar hyd y blynyddoedd, a sawl tro y bu inni dynnu ei goes y buasai ar goll heb y gofal manwl hwnnw a gai gan ei 'Sianw'. Bydd colli'r gofalu hwnnw yn fwlch enfawr i Joan, a dymunwn i'w chryfder cynhenid ei chynnal i ddygymod â'r golled.

Mae'r atgofion am Ben i gyd yn rhai hapus. Ar wahân i'w addfwynder, nodwedd arall a berthynai iddo oedd ei ddireidi heinyus a'i chwerthiniad gogleisiol. Wrth gymdeithasu fe gawsom ein siâr o hwyl, yn aml cyn diwedd noson fe fyddai'r cwmni'n torri allan i ganu. Ni fyddai'r un noson yn gyflawn heb ddatganiad o Milgi Milgi gan Ben. Nid wyf yn credu fy mod am glywed y gân byth eto – cân Ben oedd hi i mi, ac i lawer o'i gyfeillion dybia i.

Anodd derbyn mai gwir bod yna "amser i bopeth dan yr haul", anodd iawn. Maddeuer y deyrnged bersonol, anigonol hon. Yn y rhifyn nesaf gobeithiaf gael teyrnged deilwng gan un all bwyso a mesur yn well o lawer na mi ei gyfraniad i fyd gwyddoniaeth a'i ofal tadol o'i fyfyrwyr.

Ar lawer ystyr mae Ben wedi cyfoethogi bywyd ei deulu a'i ffrindiau, ac yn hynny o beth mae'n gysur meddwl bod rhyw ran bach o Ben ynom i gyd. Colled fawr i bob un ohonom, cymaint mwy y golled i'r teulu. Meddyliwn yn ddwys a thyner amdanynt.

## LLON A'R LLEDDF



• **DATHLODD** Hywel Gwynfryn ei benblwydd yn 50 oed ar 13 Gorffennaf.

• **HEFYD** ar fore 13 Gorffennaf Catrin Sera Jones, chwaer Daniel a Padrig, merch fach gyntaf Linda Leach ac Alun Ceri Jones.

• **GANED** hefyd dau blentyn cyntaf Carys ac Andy Pithouse ar 1 Mehefin, sef Siôn Ifan a Joseff Henry.

• **AC AR** 25 Mehefin ganed Sion Eilian, mab cyntaf Iona a Malcolm Williams.

## DEUD FY NEUD

# HYFDRA'R GYMRAEG WRTH DALU

GILL HAF STEPHEN

*Trefnydd y De*
*Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*

**MAE GAN** un o'r papurau rhad Saesneg eu hiaith yng Nghaerdydd, *The Cardiff independent,* golofn sy'n cael ei hysgrifennu gan rywun sy'n galw'i hun yn *Independent Jones.*

Darllenais y golofn hon â diddordeb mawr yn ddiweddar. Roedd *Independent Jones* wrthi'n ymosod yn hallt ar Gymdeithas yr Iaith am fod mor hy ag awgrymu y dylai llyfrau talu mewn y Cymdeithasau Adeiladu fod yn ddwyieithog yng Nghymru. Pe tase hyn yn digwydd, yna pwy a ŵyr beth fyddai pen y daith! Efallai y byddai pobol Cymru'n dod i ddisgwyl "everything in Cardiff to be bilingual". Arswydus, mae'n amlwg, ac yn hollol afresymol oherwydd "cost".

Yn ystod yr un wythnos ymddangosodd stori yn y *Western Mail* yn sôn am godiad cyflog Prif Weithredwr Cymdeithas Adeiladu y Principality. Cafodd 40 y cant yn ychwanegol sy'n godiad cyflog o £87,000 i £122,000 y flwyddyn. Y rheswm



am hyn oedd i ddod ag ef i'r un lefel â'r Prif Weithredwyr yn y Cymdeithasau Adeiladu mawr eraill. Roedd hefyd i fod fel cydnabyddiaeth o'r ffaith bod asedion y Principality bellach wedi cyrraedd £1 biliwn.

Os felly pa reswm bynnag sydd gan *Independent Jones* am wrthwynebu'r syniad o wlad ddwyieithog sy'n parchu ei hiaith frodorol. Does bosib mai cost rhyw lyfr talu mewn dwyieithog ydyw.

Efallai y bydd *Independent Jones* yn elwa o ystyried y pwt canlynol o adroddiad a ddaeth yn ddiweddar o Senedd Ewrop: "Gadewch i ni fod yn hollol glir. Nid yw amrywiaeth ieithyddol na diwylliannol byth yn achosi gwrthdaro. Gwrthodiad rhai pobol i dderbyn amrywiaeth sy'n achosi gwrthdaro a chynnen".

Trist iawn hefyd i rai pobol wrthod derbyn amrywiaeth o'r tu ôl i ffugenwau.

## YN SYDYN...

# NÔL AR GYFER SGRÎN CYMRU

**PENODWYD** Mari Beynon Owen (gyferbyn) i gyfarwyddo Sgrîn Cymru, menter i ddenu buddsoddiad i teledu Gymru ac i farchnata cynnyrch Cymru dramor. Bu'n gweithio tan nawr gyda'r BBC yn Llundain a chyn hynny gydag S4C.



# HAF YNG NGLANTÂF

**ELENI ETO** mae Cynllun Chwarae wedi ei drefnu am dair wythnos dros yr haf i gadw'n plant yn ddiddan yn ystod dyddiau hirfelyn tesog gwyliau'r haf rhwng 27 Gorffennaf a 14 Awst.

Cynhelir y Cynllun o ddydd Llun tan ddydd Gwener am 10am tan 1.00pm yn ysgol uchaf Glantâf. Mynediad o 50c i bob plentyn bob sesiwn sy'n cynnwys pob math o weithgareddau gwahanol


DECHRE CYCHWYN




Ffoniwch
Siân Johnston
Menter a Busnes
0222 761314

POBOL



# BRECHDAN SIAMPAEN AC ELEN

NIA HALL WILLIAMS

**BREUDDWYD** pob un sy'n dilyn ac yn gwerthfawrogi opera fydd cael mynediad i Glydebourne yn ystod misoedd yr haf i glywed cantorion o fri'n dehongli Mozart a chyfansoddwyr mawr eraill, ac i fwynhau'r pecyn o frechdannau a photel o siampaen ar y lawntiau.

Un o'r cantorion sy'n diddanu'r cynulleidfaoedd eleni yw Elen, merch y Parch a Mrs Gwilym ap Robert o Gaerdydd. Ar ôl canu'n y corws y llynedd, a bod yn aelod o'r cwmni teithiol, mae hi nawr yn cymryd rhan Kavolka yn yr opera Jenufa gan Jajacek.

Dywed y rhai sy wedi gweld y cynhyrchiad mai dwyn elfen o ysgafnder i waith eithaf dwys yw swyddogaeth y cymeriad; gallai'r gynulleidfa a fu'n gwrando ar Elen yn cyflwyno rhaglen eang o Neuadd Dewi Sant fel enillydd gwobr Grace Williams, dystio i'w dawn i gyfleu yr ysgafnder hwnnw yn ogystal, wrth gwrs, â thristwch neu orfoledd yn ôl y galw.

Fe'i haddysgwyd yn ysgolion Bryntaf a Llanhari cyn ennill gradd dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Sheffield ac yna symud i'r Guildhall yn Llundain i ganolbwyntio ar hyfforddiant llais.

Mae'n rhannu tŷ â dwy arall yn Lewes tra'n dilyn ei gyrfa, ond yn ei bywyd preifat (chwedl y papurau newydd), mae'n byw yn y Felinheli gyda'i gŵr Dylan Huws. Fe'u priodwyd yng nghapel Minny Street yn Awst 1990, a hithau'n gorfod rhuthro ar ei hunion i Glyndebourne ar ddiwedd eu mis mêl.

Daw'r tymor i ben ddiwedd Gorffennaf, ac Elen yn cael cyfle i fwynhau'r Eisteddfod ac ychydig wythnosau o seibiant cyn cychwyn ar waith newydd gyda'r cwmni teithiol Opera Eighty.

Gan fod y gwaith o ehangu theatr Glyndebourne yn cychwyn eleni bydd rhaid i'r poteli siampaen segura yn eu selerydd am gyfnod. Ni bydd perfformiad yno ym 1993, ond pan fydd y theatr newydd yn barod gobeithio y bydd Elen yno'n troedio'r llwyfan unwaith eto.

Ond y pleser mwyaf fyddai cael cyfle i'w gweld yn perfformio yma yng Nghaerdydd.


CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Yn eisiau

**CYNORTHWYDD**

ar gyfer Cylch Meithrin Rhiwbeina
bore dydd Mawrth yn unig
o fis Medi 1992 tan fis Gorffennaf 1993

Cysylltwch â Janet Catrin James
Ffôn 520888

# LLENWCH EICH FFURFLEN NAWR!

## CENHEDLOEDD BYCHAIN EWROP

# BYD GWYN YW BYD A GANO

ROBIN GWYNDAF

**"CADW FRIGYN** ir yn dy galon ac fe ddaw'r adar yn ôl i ganu". Dyna ddywediad hyfryd a glywais gan Siân Willaims, Ty'n-y-gongl, Môn. Ac roedd cân yng nghalonnau Emrys Jones, Llangwm, Eleri, fy mhriod, a minnau hefyd un wythnos fythgofiadwy ym Mehefin eleni.

Roedd y tri ohonom wedi cael gwahoddiad i gynrychioli Cymru mewn Gwyl Gerdd Gydwladol yn Joensuu, Karelia, gŵyl i ddathlu 75 mlynedd annibyniaeth y Ffindir. Dyma wlad y coed a'r llynnoedd dirifedi; gwlad yr haul nad yw ganol haf fel hyn prin yn machlud; a gwlad y gân a'r croeso digymar.

Yno bu Emrys yn canu baledi mewn dau gyngerdd ac yn ymuno gyda thelynor dawnus o'r Ffindir, Pekka Toivanen, i ganu penillion. Dyma'r tro cyntaf erioed, o bosib, i hyn ddigwydd: telynor o'r Ffindir yn cyfeilio'n ardderchog iawn i ddatgeinydd o Gymru.

Roedd y derbyniad eithriadol o gynnes a roddwyd i Emrys (yn ganu baledi ac yn gerdd dant) yn un y bydd yn ei gofio amdano'n hir.

Cyflwynwyd ychydig ganeuon gwerin yn y ddau gyngerdd hefyd gan Eleri, a phrofiad arbennig iawn i'r ddau ohonynt oedd ymuno â'i gilydd i gloi'r cyngherddau hyn drwy ganu emyn Lewis Valentine *Dros Gymru'n Gwlad* i gerddoriaeth Sibelius *Finlandia*.

Braint arbennig i minnau oedd cael cyflwyno rhannau o'r ddau gyngerdd a thraddodi darlith, ar ran Cymru, mewn cynhadledd ddeuddydd ar Ddyfodol Cenehdloedd Bychain Ewrop a'r angen am eu meithrin a'u diogelu.

Thema'r ddarlith oedd y modd y mae gorffennol gwlad – ei hanes a'i chwedloniaeth – yn gyfrwng i'w hysbrydoli i wynebu'r dyfodol. Mae neges eithriadol o berthnasol a phwysig i Gymru hithau yn y rhyddid newydd sy'n cael ei gynnig i sawl cenedl fechan heddiw. Dyma un dyfyniad o'r datganiad gan y bardd Paavo Haavikko a ddarllenwyd ar derfyn y gynhadledd: "Gall llywodraethau roi sylw i faterion yn ymwneud â grym; dim ond cenhedloedd all ofalu am erddi".

Profiad cyfoethog iawn i ni oedd cael cwmni cynrychiolwyr o blith cenhedloedd bychain megis yr Eskimo a'r Sipsiwn, a'r un modd yr Udmurtiaid, y Marii a'r Hantitiaid a berthynai gynt i'r hen Undeb Sofietaidd, a gwrando arnynt yn agor eu calonnau a llawenhau am fod drws yn agor o'r newydd i ryddid a phrydferthwch.



• Robin Gwyndaf (chwith) gyda [illegible] Petros, Metropolitan yr Eglwys Uniongred, [illegible], Groeg mewn cynhadledd ar ddyfodol cenhedloedd bychain Ewrop yn Joensuu, y Ffindir

Cyd-dristau hefyd â chynrychiolwr o genhedloedd megis y Basgiaid, am nad yw'r drws hwn i ryddid ar agor.

Mynegwyd yr un dyhead a gobaith am gyfiawnder i genhedloedd bychain y byd mewn cyfarfod pwysig ar ddyfodol cenedl y Saami (y Lappiaid) y bu i Eleri a minnau ei fynychu yn ystod tridiau ychwanegol yn Helsinki.

Yno roeddem yn westeion Cymdeithas Lenyddiaeth y Ffindir (SKS) ar wahoddiad y Cyfarwyddwr, Urpo Vento.

Yn y cyfarfod yn trafod cenedl y Saami cefais gyfle i annerch ar ran Cymru, ac i sgwrsio ymhellach ag Esko Aho, Prif Weinidog Ffinland, a'n cyfaill yr Athro Juha Pentikäinen, gŵr blaenllaw iawn yng ngweithgarwch Unesco.

Cenedl, treftadaeth, rhyddid, gardd. Ac mewn gardd mae cân a phrydferthwch. Yn eu cyflwyniad i raglen swyddogol Gŵyl Gerdd Joensuu, roed y trefnyddion wedi dyfynnu cwpled T Gwynn Jones, sef ei arwyddair i Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Ni allaf innau feddwl am well arwyddair i genhedloedd bychain y byd heddiw ar derfyn yr ugeinfed ganrif na geiriau'r bardd o Gymru:

*Byd gwyn yw'r byd a gano*
*Gwaraidd fydd ei gerddi fo*


Yn eisiau

**ARWEINYDD A CHYNORTHWYDD**

i gylch meithrin newydd
sy'n agor ym mis Medi 92
yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Diddordeb?

Cysylltwch â Tina Rossiter
Ffôn 626149

**CEIDWAD Y STORDY**

**£7397, 35 awr yr wythnos**

Yn eisiau o 14 Medi i weithio yn stordy prysur Gwasg Prifysgol Cymru. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys derbyn stoc, pacio a chludo, post, a gwaith syml ar gynnal a chadw'r adeilad. Ffurflenni cais (i'w dychwelyd erbyn 3 Awst) a manylion pellach o Wasg y Brifysgol, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd CF2 4YD ffôn 231919

BOBATH CYMRU

# POPETH I BOBATH

WYNNE LLOYD

**ROEDD RHYWBETH** i bawb yn Ebeneser ar nos Sadwrn 20 Mehefin. Mabwysiadodd yr eglwys elusen Bobath am flwyddyn, a threfnwyd cyngerdd arbennig fel rhan o'r gweithgarwch elusennol.

Drwy ddycnwch a dyfeisgarwch y gweinidog, Dr Geraint Tudur, llwyddwyd i ddenu amrywiaeth o ddoniau i gadw cyngerdd a hynny ar noson grasboeth.

Denwyd Côr Tabernacl Treforus i ddod draw dan ei arweinydd egnïol Alun John. Dyma gôr 'yn yr hen ddull' – côr pedwar llais o dros gant, côr ardal yn nhraddodiad Llanelli, Sgiwen a Chaernarfon. Erys Côr Treforus yn ffyddlon a theyrngar i'r traddodiad.

Roedd rhaglen y côr yn ddigon mentrus, gan gynnwys gweithiau gan Bach, Gounod, yn ogystal â phedwar o gyfansoddwyr Cymru. Dechreuwyd yn orfoleddus gyda gwaith cynhyrfus Bradwen Jones *Molwch yr Arglwydd*, a chloi gyda pherfformiad deallus o *Tydi a Roddaist*. Cafwyd hefyd ddatganiad allan o *Elias* gan Mendelssohn, gyda chyfraniad gan unawdydd y noson, Iona Jones.

Roedd ei dewis cynta hi'n ddiddorol wrth ganu gosodiad Haydn Morris o *Y Sipsi*, a chân gwbwl wahanol ei naws gan Gershwin *Summertime*. Llwyddodd hefyd i ddwyn y gynulleidfa i hud *Ynys y Plant*.

Eitemau pur wahanol oedd gan Mark Hutcherson sy'n ewffonydd o fri. Dangosodd ei fedr rhyfeddol mewn darnau mor wahanol â *Nessun Dorma*, *Celest Aida*, a *Charnifal Fenis* sy'n rhoi gwedd newydd ar yr hen gân wersyll *Mae gen i het dri chornel* – darn wrth fodd y gweinidog.

Unawdydd offerynol arall y noson oedd y delynores addawol Lowri Clement, a berfformiodd weithiau gan John Thomas a Glinka.

Cyfraniad mwyaf hudolus y noson oedd eitemau'r triawd Adlais. Canent flodeugerdd o ganeuon yn yr arddull arbennig y cofiwn amdano pan oedd y Diliau yn eu gogoniant.

Pleser pur oedd clywed Salm 121, *Y Deryn Du a'i Blufyn Sidan*, *Hen Ferchetan*, a gosodiad Alwyn Humphreys o gerdd T Rowland Hughes *Pe bawn i'n Artist*.

Mewn rhaglen gartrefol a hwyliog, rhaid cydnabod gwaith da'r cyfeilyddion a chyflwyniad deheuig a phriodol Hywel Gwynfryn.

Roedd hi'n dda clywed i'r holl berfformwyr roi o'u talent yn rhad ac am ddim er budd yr elusen.





Gan y bydd S4C yn gwerthu'r gofod hysbysebu o Ionawr 1992, mae angen rhagor o bwyslais ar hybu/hyrwyddo rhaglenni'r sianel. Fel canlyniad gwahoddir ceisiadau am ddwy swydd

## RHEOLWR YR ADRAN GYFLWYNO

Er mwyn datblygu polisi cyflwyno cystadleuol a chynhwysfawr ar gyfer y 90au, mae S4C yn awyddus i benodi Rheolwr yr Adran Gyflwyno.

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar brofiad o weithio mewn byd teledu a'r gallu i reoli pobol a chyllidebau. Bydd yn gyfrifol am drefnu'r amserlen ddarlledu ddyddiol ac am weithredu'r polisi cyflwyno diwygiedig.

Mae brwdfrydedd, agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i roi sylw i fanylion yn allweddol gan y disgwylir iddo/iddi ddirprwyo yn ôl y galw i'r Pennaeth Cyflwyno. Byddai ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technegol a chyfrifiadurol sy'n ymwneud â darlledu hefyd yn fanteisiol a bydd y gwaith yn cynnwys cyd gysylltu â chomisiynwyr, cynhyrchwyr a'r Adran Farchnata.

Cytundeb 2 flynedd, cyflog i'w drafod.

## YSGRIFENNYDD/ES I'R PENNAETH HYSBYSEBU A NAWDD

Mae Pennaeth yr Adran Hysbysebu a Nawdd, Catrin Brace, yn chwilio am berson arbennig iawn i weithio fel ysgrifennydd/es / cynorthwy-ydd.

Mae angen person allblyg, cymdeithasol a llawn ynni gyda phrofiad o weithio mewn swyddfa brysur, os yn bosibl yn y maes Gwerthiant a Marchnata. Dylai'r person fod a chymwysterau ysgrifenyddol cryf, gan gynnwys sgiliau cyfrifiadurol (yn ddelfrydol profiad bas data a phrosesu geiriaul). Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

Cytundeb 2 flynedd

Cyflog: c £12,000

Am fanylion pellach cysylltwch â

**Catherine Tweedy, Adran Bersonel, S4C, Parc Ty Glas, Llanishen, Caerdydd CF4 5DU**

**Ffon 0222 747444**

Dyddiad cau: 14 Awst 1992

(Posts of Presentation Manager and Secretary to Head of Ad Sales and Sponsorship)

S4C

# LLENWCH EICH FFURFLEN NAWR!

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

**ABERYSTWYTH**

Dwy arddangosfa bwysig na ddylid eu colli

## Trysorfa Cenedl

Arddangosfa barhaol newydd y Llyfrgell. Detholiad o'r prin, y gwerthfawr a'r unigryw o blith y casgliadau gan gynnwys llawysgrifau cynnar a diweddar; y llyfr, y cylchgrawn a'r map Cymraeg cyntaf; y ffotograff Cymreig cynharaf.

## Y Llyfrgell, yr Eisteddfod a'r Orsedd

(19 Mehefin - 3 Hydref 1992)

Oriel yr Archdderwyddon; dehongliad o hanes cynnar yr Orsedd; ffotograffau cynnar o Eisteddfodau a seremonïau'r Orsedd; posteri, tystysgrifau, llyfrau cofnodion, cadeirau, coronau.

A thrwy drefniant arbennig - regalia'r Orsedd

* * * * *

Tra'n Aberystwyth tarwch i mewn am dro

**Mynediad am ddim**

Ar agor: Llun - Sadwrn, 10.00 am - 5.00 pm

---

# Darganfod Cymru

*Teithiau Cerdded Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

**Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno â hwy ar gyfres o arweindeithiau.**

DOCIAU CAERDYDD
DE MORGANNWG
*Dydd Mercher 22 Gorffennaf*
Cyfarfod am 7pm wrth Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru
Cyfeirnod Grid: *Dalen 171/ST 192 745*
Hanes y dociau – archaeoleg diwydiannol
*Arweinydd: D Jenkins*

ABERYSTWYTH
DYFED
*Dydd Sadwrn 1 Awst*
Cyfarfod am 2pm ar draeth Tan-y-Bwlch.
Cyfeirnod Grid: *Dalen 135/SN 579 806*
Taith gerdded i edrych ar blanhigion a hanes lleol traeth Tan-y-Bwlch a Phen Dinas
*Arweinwyr: R G Ellis a A O Chater*

PENARTH
DE MORGANNWG
*Dydd Sul 20 Medi*
Cyfarfod am 2pm wrth Dy Turner
Cyfeirnod Grid: *Dalen 171/ST 186 714*
Daeareg deunydd adeiladu, parciau a choed
Arweinydd B A Thomas

LLANELLI
DYFED
*Dydd Sul 27 Medi*
Cyfarfod am 2pm yn maes parcio Doc y Gogledd.
Cyfeirnod Grid: *Dalen 159/SS 497 995*
Hanes lleol a diwydiannol, datblygiad tirwedd a thwf dinesig
*Arweinydd: R Prothero Jones*

CAERFYRDDIN
DYFED
*Dydd Sadwrn 10 Hydref*
Cyfarfod am 2pm wrth Gerflun y Cadfridog Nott, Sgwâr Nott
Cyfeirnod Grid: *Dalen 159/SN 413 200*
Ffowndriau a gwneuthurwyr offer Caerfyrddin
*Arweinydd: E Somerfield*

Bydd pob taith yn dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer yr awyr agored. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau am y teithiau hyn i'r
Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd CF1 3NP.
Ffôn 0222 397951

---


**ANGEN LLYFRAU?**

**GORMOD O DDEWIS?**

**METHU PENDERFYNU?**

**MAE'R ATEBION I GYD GAN ORIEL!**

Y siop lyfrau yn Ne Cymru ar gyfer y celfyddydau, barddoniaeth a llenyddiaeth — popeth am Gymru o dan un to.




Oriel
Siop Lyfrau
Cyngor y Celfyddydau,
Heol Ty'r Brodyr,
Caerdydd
(ger y New Theatre)

Arbenigwyr mewn llyfrau ysgol, defnydd i ddysgwyr a'r traddodiad Eingl-Gymreig.
Gwasanaeth post ar gael.
Ffoniwch (0222) 395548 neu galwch heibio.

---

**sain**

# SEINIAU'R STEDDFOD!

**★ GORAU GWERIN ★**
22 Trac CD

**★ MYNEDIAD AM DDIM ★**
22 o ganeuon 1974-1992
Caset/CD

**★ HOGIA LLANDEGAI ★**
– Goreuon – CD

**★ SOBIN YN DOD ADRA ★**
– Caneuon byw –

**★ GORAU SAIN II ★**
– Caneuon roc 1978-1988 –

**★ CWLWM ★**
– Ail gaset o ganeuon newydd sbon –

**★ RICHARD REES (PENNAL) ★**

Sain-Llandwrog-Caernarfon-Gwynedd
(0286) 831.111

BBC CYMRU WALES

YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

# O FORE GWYN

# TAN NOS

# 100

DROS GANT O ORIAU
O WRANDO A GWYLIO
YN ATSEINIO DIFYRRWCH
WYTHNOS GRON O'R
'STEDDFOD GER Y LLI

AC O'N STONDIN YN
DDYDDIOL YMUNWCH Â
BWRLWM SULWYN A
CHROESO'R SÊR YNG
NGHAFFI MEIC PIERCE

BBC CYMRU WALES

YN FYW O GEREDIGION